Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau Cyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn a thrwy fideo-gynadledda Teams ar **13 Hydref 2025.**

**PRESENNOL:-** Ei Deilyngdod y Maer, Cyng. Medwyn Hughes, Cyng. Delyth Russell (Dirprwy Faer), Cyng. Steve Bell, Cyng. John Wyn Jones, Cyng. Elin Walker Jones, Cyng. Gareth Parry, Cyng. Gwynant Roberts a'r Cyng. Jackie Spence.

**Swyddogion:-** Carwyn Davies (Swyddog Gweinyddol) a Sioned Jones (Cyfieithydd).

**09/25 YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Nigel Pickavance.

**10/25 PENODI CADEIRYDD I'R PWYLLGOR AR GYFER BLWYDDYN DDINESIG 2025 – 2026**

Yn y Pwyllgor Asedau diwethaf, cynigiwyd enw un aelod fel ymgeisydd arfaethedig ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Asedau ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2025 – 2026, y Cynghorydd John Wyn Williams.

**PENDERFYNWYD:** Penodi'r Cynghorydd John Wyn Williams yn Gadeirydd y Pwyllgor Asedau ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2025 – 2026.

**11/25 DATGANIAD O FUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**

Dim

**12/25 CYMERADWYO COFNODION CYFARFOD 14 GORFFENNAF 2025**

**PENDERFYNWYD:** derbyn cofnodion cyfarfod 14 Gorffennaf 2025 , fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

**13/25 TRAFOD CYNNIG GAN FFRINDIAU PIER Y GARTH AR GYFER TŶ'R PIERFEISTR**

*Cafodd copi o'r cynllun busnes arfaethedig gan Ffrindiau Pier Garth Bangor ei ddosbarthu ymlaen llaw i'r aelodau cyn y cyfarfod hwn.*

Trafodwyd y cynnig busnes gan y pwyllgor. Roedd y cynnig busnes yn amlinellu cynllun i Ffrindiau Pier Garth Bangor gael y tŷ ar brydles hirdymor gan Gyngor y Ddinas. Roedd y manylion yn cynnwys troi'r tŷ yn llety gwyliau, a fyddai'n cynhyrchu ac yn cyfrannu ymhellach at yr incwm sydd ei angen yn fawr ar gyfer cynnal a chadw parhaus y Pier yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD:** Prydlesu Tŷ'r Pierfeistr i Ffrindiau Pier Garth Bangor. Cytunwyd y gallai'r cytundeb fynd rhagddo dim ond ar ôl cael trafodaethau pellach ynghylch y cymalau i'w sefydlu rhwng y Cyngor a Ffrindiau Pier y Garth.

**14/25 TRAFOD Y POSIBILRWYDD O DROSGLWYDDO ASEDAU CAE FFORDD Y TRAETH**

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad ar yr eitem hon, gan fod y gwaith ar y tanc carthffosiaeth o dan gae Ffordd y Traeth bellach wedi'i gwblhau gan Ddŵr Cymru. Hysbyswyd y pwyllgor, gan ei bod wedi bod yn fwy na 6 mis ers y penderfyniad diwethaf ar yr eitem hon, fod y Cyfarwyddwr Dinesig wedi ceisio awdurdodiad gan y pwyllgor hwn i barhau â'r drafodaeth gyda Byw yn Iach/Cyngor Gwynedd.

**PENDERFYNWYD:** Caniatáu i’r Cyfarwyddwr Dinesig barhau â'r trafodaethau ar gyfer trosglwyddo asedau cae Ffordd y Traeth.

**15/25 DERBYN DIWEDDARIAD AR YR ADNEWYDDIADAU STRWYTHUROL I'R PIER**

Derbyniodd y pwyllgor ddiweddariad ar y gwaith adnewyddu strwythurol presennol, a ddechreuodd ar 6 Hydref 2025. Adroddwyd bod Ffrindiau Pier Garth Bangor wedi llwyddo i gael £40,000 o gyllid torfol ers y cyfarfod diwethaf. Mae hyn yn golygu, gyda chyllid cyfatebol gan Gyngor y Ddinas, y bydd modd cwblhau'r ddau gam sy'n weddill erbyn diwedd y flwyddyn.

**16/25 TRAFOD Y COFNOD GWEITHREDU ASEDAU**

Hysbyswyd y Pwyllgor am y sefyllfa bresennol o ran yr eitemau a restrir yn y Cofnod Camau Gweithredu. Gofynnodd y pwyllgor am ychwanegu rhagor o wybodaeth at y cofnod asedau.

**PENDERFYNWYD:** Ychwanegu rhagor o wybodaeth a phrosiectau sef Gerddi Garth, Parc Chwarae Lon Glyder a Gerddi Cymunedol Cae Doctor i’r Cofnod.

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.30 pm**

CYFARWYDDWR DINESIG – Martin Hanks – CITY DIRECTOR